

2017 Rhif (Cy.)

2017 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Llanfarian, Ceredigion) (Terfynau
Cyflymder 40 mya ac 20 mya
Rhan-amser) 2017

The A487 Trunk Road (Llanfarian,
Ceredigion) (40 mph & Part-time
20 mph Speed Limits) Order 2017

Gwnaed 1 Awst 2017

Made 1 August 2017

Yn dod i rym 4 Awst 2017

Coming into force 4 August 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1), (1A), (2) a 124(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1), (1A), (2) and 124(1) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Awst 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Llanfarian, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 40 mya ac 20 mya Rhan-amser) 2017.

1. This Order comes into force on 4 August 2017 and its title is The A487 Trunk Road (Llanfarian, Ceredigion) (40 mph & Part-time 20 mph Speed Limits) Order 2017.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Diwygiwyd paragraff 27 o Atodlen 9 gan baragraff 5(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 (p.11), paragraff 1 o Atodlen 18 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19) a pharagraff 8 o Atodlen 11 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p.38). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) 1984 p.27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân a Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

- (1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. Paragraph 27 of Schedule 9 was amended by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994 (c.11), Schedule 1, paragraph 5(2), the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19), Schedule 18, paragraph 1, the Transport Act 2000 (c.38) Schedule 11, paragraph 8. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor yn Llanfarian yn Sir Ceredigion;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Atal Dros Dro

5. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Ddynesu o'r De i Lanfarian, Aberystwyth, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2003(3) wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd yn Atodlen 1 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cymhwys

6.—(1) Nid yw'r cyfyngiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the home forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road at Llanfarian in the County of Ceredigion.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

Restrictions

3. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1.

4. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2.

Suspension

5. The provisions of The A487 Trunk Road (Southern Approach to Llanfarian, Aberystwyth, Ceredigion) (40 mph Speed Limit) Order 2003(3) are suspended insofar as they apply to the length of the trunk road described in Schedule 1 during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

Application

6.—(1) The restrictions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru .

Dyddiedig

1 Awst 2017

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated

1 August 2017

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser

Y darn o'r gefnffordd yn Llanfarian yn Sir Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 158 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Rhyd-y-gwin hyd at bwynt 64 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A485.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o'r gefnffordd yn Llanfarian yn Sir Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Rhyd-y-gwin hyd at bwynt 158 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Part-time 20 mph Speed Limit

The length of the trunk road at Llanfarian in the County of Ceredigion that extends from a point 158 metres north-east of the centre-point of its junction with Lon Rhydygwin to a point 64 metres south-west of the centre-point of its junction with the A485.

SCHEDULE 2

40 mph Speed Limit

The length of the trunk road at Llanfarian in the County of Ceredigion that extends from a point 100 metres south-west of the centre-point of its junction with Lon Rhydygwin to a point 158 metres north-east of the centre-point of that junction.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(LLANFARIAN, CEREDIGION) (TERFYNAU
CYFLYMDER 40 MYA AC 20 MYA RHAN-
AMSER) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1), (1A), (2) a 124(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 4 Awst 2017.

Effaith y Gorchymyn yw cyflwyno terfyn cyflymder rhan-amser o 20 mya ar y darn o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn er mwyn gostwng cyflymder y traffig a hybu diogelwch cerddwyr ger Ysgol Gynradd Llanfarian yn Llanfarian, Ceredigion. Bydd y terfyn cyflymder presennol o 40 mya ar gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 2 hefyd yn cael ei estyn. Dim ond yn ystod cyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn y tymor ysgol y bydd y terfyn cyflymder rhan-amser o 20 mya yn gymwys.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 2 Awst 2017, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r cynllun, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol Llyfrgell Aberystwyth, Canolfan Alun R. Edwards, Maes y Frenhines, Aberystwyth SY23 2EB neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1285464/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2017).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

**ATODLEN 1
Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 158 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Rhyd-y-gwin hyd at bwynt 64 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A485.

**ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 40 mya**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Rhyd-y-gwin hyd at bwynt 158 o fetrau i'r gogledd-

**THE A487 TRUNK ROAD (LLANFARIAN,
CEREDIGION) (40 MPH & PART-TIME 20
MPH SPEED LIMITS) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 84(1), (1A), (2) and 124(1) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 4 August 2017.

The effect of the Order is to introduce a part-time 20 mph speed limit on the length of the A487 trunk road described in Schedule 1 to this Notice in order to reduce the speed of traffic and promote pedestrian safety near Llanfarian Primary School at Llanfarian, Ceredigion. The existing 40 mph speed limit on the A487 trunk road described in Schedule 2 will also be extended. The part-time 20 mph speed limit is only expected to apply for limited periods of the day during school term time.

During a period of 6 weeks from 2 August 2017 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Aberystwyth Library, Canolfan Alun R. Edwards, Queen's Square Aberystwyth SY23 2EB or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1285464/1.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULES

**SCHEDULE 1
Part-time 20 mph Speed Limit**

The length of the trunk road that extends from a point 158 metres north-east of the centre-point of its junction with Lon Rhydygwin to a point 64 metres south-west of the centre-point of its junction with the A485.

**SCHEDULE 2
40 mph Speed Limit**

The length of the trunk road that extends from a point 100 metres south-west of the centre-point of its junction with Lon Rhydygwin to a point 158 metres

ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

north-east of the centre-point of that junction.